55. Llyn Fanod

Bronnant, Ceredigion

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 199 yr A.O., Llanbedr Pont Steffan; Prif fynedfa: SN604645; Canolfan y safle: SN604645
Statws	Mae'r safle hwn yn rhan o SoDdGA Cors Llyn Farch a Llyn Fanod.
Daliadaeth	Prynwyd y warchodfa, sydd ond yn cynnwys pen deheuol pellaf y llyn, gan Brifysgol Cymru yn 1983.
Maint	0.2 he (0.5 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	Troi i'r chwith yn SN605633 ar y B4577 o Aberarth i Dregaron. Wedi ychydig dros 1 km, daw'r llyn i'r golwg ar ochr orllewinol y ffordd. Neu, o Lyn Eiddwen, trowch i'r chwith ac yna cymryd y cyntaf ar y dde. Ceir gofod parcio ar ochr y ffordd yn y groesffordd, SN607646, a bydd raid cerdded tua'r gorllewin ar hyd trac. Gellir cael mynediad i'r lan i gyd. CADWCH AT Y LAN YN UNIG OS GWELWCH YN DDA. Nid oes modd defnyddio cadeiriau olwyn ar y safle.
Cludiant cyhoeddus	Mae gwasanaeth bws 585 Aberystwyth / Llanbedr Pont Steffan yn mynd drwy Fronnant yn rheolaidd hefyd, ac mae'n rhaid cerdded rhyw 5 km at y llyn wedyn.

Disgrifiad: Llyn naturiol yn yr ucheldir, planhigion dyfrol, gweision y neidr.
Gellir disgrifio'r llyn, sy'n ymestyn am 4.5 he, fel chwaer i Lyn Eiddwen, sydd ryw 2km i ffwrdd. Mae'n ardal fwy cysgodol, gyda chors mewn basn serth yn y pen deheuol a rhostir ar y lan serth sydd agosaf at y llwybr troed. Ceir amrywiaeth o blanhigion dyfrol yma, yn cynnwys Lobelia Dyfrol (7-9), Gwair Merllyn, Beistonnell Merllyn (6-9) ac ambell enghraifft o Fynawydlys Dyfrdrig (6-7), sydd yn ei leoliad mwyaf deheuol ym Mhrydain Fawr yn y fan yma fwy na thebyg. Yng nghanol yr haf, ceir arddangosfa odidog o Lili Wen y Dŵr (6-9) a Lili Felen y Dŵr (7-8), sy'n gorchuddio rhan helaeth o ben deheuol y llyn.

Mae'r llyn yn gynefin arbennig o dda ar gyfer gweision y neidr, mursennod a phryfed gwellt, yn ogystal ag ambell Lepidoptera dyfrol.

llyn fanod2 1 7/7/06 3:56:48 pm



Nodau Rheoli: Gan mai bychan iawn yw'r safle, yr unig waith rheoli sydd raid ei wneud yw monitro.

Amser da i ymweld	
Mai - Gorffennaf	Adar yn magu
Mehefin - Medi	Blodau dyfrol

llyn fanod2 2 7/7/06 3:56:49 pm